

EVANS, Syr GERAINT LLEWELLYN (1922 - 1992), canwr opera

Enw: Geraint Llewellyn Evans

Dyddiad geni: 1922

Dyddiad marw: 1992

Priod: Brenda Evans Evans (née Davies)

Plentyn: Evans

Plentyn: Evans

Rhiant: William John Evans

Rhiant: Charlotte May Evans (née Thomas)

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: canwr opera

Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio

Awdur: Rhidian Griffiths

Ganwyd Geraint Evans ar 16 Chwefror 1922 yn William Street, Cilfynydd, yn fab i William John Evans (1899-1978), glöwr, a'i wraig Charlotte May (g. Thomas, 1901-1923). Bu farw ei fam ar enedigaeth ail blentyn, a magwyd Geraint gan rieni ei fam nes cyrraedd ei ddeg oed, pan ailbriododd ei dad a symud i Drehopcyn ger Pontypridd. Gadawodd yr ysgol yn bedair ar ddeg oed a mynd i weithio mewn siop ddillad ym Mhontypridd. Yn y cyfnod hwnnw cafodd wersi canu yng Nghaerdydd a chymryd rhan mewn perfformiadau amatur lleol.

Wedi dechrau'r Ail Ryfel Byd yn 1939 gwirfoddolodd i ymuno â'r Llu Awyr, gan hyfforddi fel peiriannydd radio a chymryd rhan mewn cyngherddau adloniannol. Ar ddiwedd y rhyfel ymunodd â'r Rhwydwaith Lluoedd Prydeinig, a oedd yn darlledu o Hamburg, ac achubodd ar y cyfle i dderbyn hyfforddiant lleisiol proffesiynol gan Theo Herrmann. Wedi gadael y lluoedd, penderfynodd fentro ar yrfa ym myd canu, a derbyniodd gefnogaeth yr awdurdod lleol (er yn anfoddog) i astudio yn Ysgol Gerdd a Drama y Guildhall yn Llundain. Yno yn 1948 yr ymddangosodd gyntaf mewn opera, yn rhan Don Alfonso yn *Così fan tutte* gan Mozart, ac ymddangosodd yn fuan wedyn yn Covent Garden mewn rhan fach yn *Die Meistersinger von Nürnberg* gan Wagner. Yr oedd ei ddawn naturiol i actio ac i bortreadu cymeriad yn ei wneud yn gwbl gartrefol ym myd opera - dywedai ei fod yn hoff o ddatblygu cymeriad 'o'r traed i fyny' - a meistrolodd 73 o rannau mewn 53 o operâu dros ei yrfa i gyd. Cyfrifir rhai o'r portreadau hyn, megis rhan Figaro yn *Le nozze di Figaro* gan Mozart, Leporello yn *Don Giovanni* a Papageno yn *Die Zauberflöte* ac yn fwyaf arbennig *Falstaff* yn yr opera o'r un enw gan Verdi, yn glasuron. Yr oedd hefyd yn ddigon gwylaidd i gydnabod ambell fethiant: unwaith yn unig y canodd y brif ran yn *Rigoletto* Verdi, a phenderfynu nad oedd yn gweddu iddo.

Perfformiodd yn eang ar gyfandir Ewrop ac yng Ngogledd America, a phalmantu'r ffordd i gantorion eraill o Gymru. Cafodd 24 tymor yn olynol yn San Francisco, a bu'n canu'n rheolaidd yn Staatsoper Fienna, Chicago, La Scala Milan a Salzburg. Perfformiodd hefyd yn rheolaidd yn Covent Garden, gan ymddangos yno am y tro olaf ar 4 Mehefin 1984 yn *L'elisir d'amore*

gan Donizetti. Câl'r enw gan rai cyfarwyddwyr o fod yn anodd, ond yr oedd yn berffeithydd. Testun peth siom iddo oedd na chafodd fwy o gyfle i gyfarwyddo ei hun.

Roedd Geraint Evans yn Gymro twymgalon a roddai lawer o gefnogaeth i'w gyd-Gymry yn enwedig ym myd opera ar gyfandir Ewrop. Fe'i cyffyrddwyd i'r byw noson ei ffarwel â Th Opera Covent Garden yn 1984 pan ymunodd y corws, ei gyd-unawdwyr a'r gynulleidfa i ganu 'Hen Wlad fy Nhadau' i gloi'r noson. Cawsai gyngerdd ffarwel yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 1982 hefyd. Roedd ganddo d haf yn Aberaeron er 1966, ac ymddeolodd yno yn gyfan gwbl ar ddiwedd ei yrfa, gan ddod yn gwbl gartrefol yn y gymuned ac yn gyfeillgar iawn â'r trefolion.

Priododd â Brenda Evans Davies (1920-2010) o Gilfynydd ar 27 Mawrth 1948, a chawsant ddau fab, Alun a Huw; yn ei hunangofiant mae Geraint Evans yn canmol ei wraig am ei chefnogaeth a'i dawn i gynnig beirniadaeth adeiladol ar ei berfformiadau.

Urddwyd ef â CBE yn 1959 a daeth yn farchog ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Derbyniodd hefyd wisg wen Gorsedd Cymru. Ymhlith cantorion Cymru mae i Geraint Evans le arbennig, yn enwedig fel arloesydd ym myd opera.

Bu farw Geraint Evans o drawiad ar y galon yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth ar 19 Medi 1992, a chladdwyd ei lwch ym mynwent Llanddewi Aber-arth ger Aberaeron. Cynhaliwyd gwasanaeth coffa yn Abaty Westminster yn Llundain ar 27 Tachwedd yr un flwyddyn.

Awdur

Rhidian Griffiths

Ffynonellau

Geraint Evans, *Sir Geraint Evans: A Knight at the Opera* (London 1984)

The Times, 21 Medi 1992

The Guardian, 21 Medi 1992

Patrick Hannan, 'Geraint Evans' yn Trevor Herbert a Peter Stead (goln.), *Hymns and Arias: Great Welsh Voices* (Cardiff 2001), 41-53

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Geraint Evans \(canwr opera\)](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [74039484](#)

Wikidata: [Q3103853](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2024-03-29

Hawlfraint Erthygl: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

